**Eitem ar yr agenda: 8**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**PANEL GWEITHREDOL**

**26 AWST 2004**

**NEWIDIADAU POSIB I'R RHEOLAU SEFYDLOG**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

**1** Ystyried a ddylid newid y rheolau sefydlog o safbwynt cadeiryddiaeth pwyllgorau, a chymryd ystyriaeth o fodolaeth y Pwyllgor Safonau.

**Cefndir**

**2** Yn yr adolygiad o'r rheolau sefydlog a wnaed y llynedd, anghofiwyd am y gwrthdaro rhwng yr arfer o safbwynt cadeiryddiaeth y Pwyllgor Gwerth Gorau, a gofynion rheol sefydlog 14(5).

**3** Mae rheol sefydlog 14(5) yn darparu "Ni chaiff yr un aelod wasanaethu fel cadeirydd neu is-gadeirydd mwy nag un pwyllgor". Fodd bynnag, yr arfer yw bod cadeirydd yr awdurdod tân yn gadeirydd ar y Panel Gweithredol (sy'n cael ei drin fel pwyllgor gan yr awdurdod tân trwy rinwedd rheol sefydlog 12(1)(c)) a'r pwyllgor Gwerth Gorau. Mae hyn i'w weld yn mynd yn groes i'r rheolau sefydlog.

**4** Yr awgrym, er nid y datganiad, yw fod y rheolau sefydlog sy'n ymwneud â phwyllgorau, yn berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. Mae sawl darpariaeth yn y rheolau sefydlog sy'n gwrthdaro â'r ddeddfwriaeth ar bwyllgorau safonau, e.e. y cyfyngiad o bedair blynedd o ran cadeiryddiaeth pwyllgor yn rheol sefydlog 14(6) a'r cworwm sydd ei angen yn rheol sefydlog 15. Y ddeddfwriaeth fyddai'n cael blaenoriaeth, ond priodol yw ystyried pa welliannau y dylid eu gwneud i'r rheolau sefydlog i adlewyrchu'n well fodolaeth y Pwyllgor Safonau.

**Cyngor**

**5** Y dewisiadau ar gyfer sut i ymdrin â'r mater o gadeiryddiaeth pwyllgorau yw:

5.1 gwneud dim. Ni allai'r cadeirydd wasanaethu bellach fel cadeirydd y pwyllgor gwerth gorau, er y gallai ef neu hi barhau i fod yn aelod o'r pwyllgor;

5.2 newid rheol sefydlog 12(1)(c) fel nad yw'r Panel Gweithredol yn cael ei drin fel un o bwyllgorau'r awdurdod tân at ddiben rheol sefydlog 14(5). Byddai hyn yn caniatáu i'r cadeirydd hefyd gadeirio'r Pwyllgor Gwerth Gorau, er bod y pwyllgor dan reol sefydlog 14(1) i fod i ethol ei gadeirydd a'i is-gadeirydd ei hun. Yr arfer a fu yw bod y cadeirydd, yn rhinwedd ei swydd, yn gadeirydd y Pwyllgor Gwerth Gorau;

5.3 mabwysiadu dull mwy radical, trwy wneud darpariaeth y bydd y cadeirydd os yn aelod o un o bwyllgorau'r awdurdod tân, hefyd yn cadeirio'r pwyllgor hwnnw. Mae hyn yn adlewyrchu'r arfer bresennol. Gellir dileu'r darpariaethau sy'n ymwneud â rhywun yn peidio â bod yn gadeirydd mwy nag un pwyllgor ac yn peidio â chadeirio pwyllgor am fwy na 4 blynedd. Byddai dal angen cael darpariaeth ar gyfer pwyllgor nad yw'r cadeirydd yn aelod ohono i ethol ei gadeirydd ei hun. Credaf mai'r ffordd yma fyddai'r fwyaf ymarferol.

**6** Dyma'r dewisiadau ar sut i ymdrin â'r Pwyllgor Safonau:

6.1 dynodi pa ddarpariaethau yn y rheolau sefydlog sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. Gallai hyn fod yn eithaf cymhleth a gallai olygu, mewn rhai achosion, wneud dim ond ailddatgan beth mae'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau yn ei ddweud ac, mewn achosion eraill, orfod rhoi'r rheolau sefydlog ar waith gyda llawer o addasiadau;

6.2 mabwysiadu dull symlach: eithrio'r Pwyllgor Safonau o'r darpariaethau sy'n ymwneud â phwyllgorau'r awdurdod tân, a'i adael i reoleiddio ei weithdrefn ei hun tra'n ei gwneud yn glir fod yn rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol perthnasol (a fyddai, er enghraifft yn cynnwys mynediad y cyhoedd at ddogfennau a chyfarfodydd). Credaf mai'r dull yma fyddai orau.

**7** Lluniaf welliannau yng ngoleuni casgliadau'r Panel. Er mwyn arbed amser, rwy'n awgrymu y dylid awdurdodi'r cadeirydd a'r is-gadeirydd i gytuno ar y geiriad a fydd wedyn yn cael eu cynnig yn ffurfiol yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 20 Medi cyn eu trafod yn y cyfarfod ar 20 Rhagfyr.

**Argymhelliad**

**8** Bod y Panel yn ystyried pa newidiadau (os oes rhai) i'r rheolau sefydlog y mae'n dymuno eu hargymell i'r Awdurdod Tân yng ngoleuni'r adroddiad hwn; ac awdurdodi'r cadeirydd a'r is-gadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Clerc, i lunio geiriad terfynol y gwelliannau arfaethedig.